

BYWYD GWYLLT

LLWYBR RHYMNI

Bydd y daflen hon yn eich helpu i adnabod rhai o'r planhigion, anifeiliaid ac adar mwyaf cyffredin ar hyd Llwybr Rhymini. Mae sawl lle y gallwch weld yr afon ohono. Cymerwch eiliad i aros, i edrych ac i wrando am fywyd gwylt - cewch eich synnu faint y gallwch ddod o hyd iddo. **Cliciwch ar yr 'eiconau' i gael gwybod mwy...**

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â chyfleoedd eraill i fwynhau r ardal o gefn gwlad sydd ar garreg eich drws, cysylltwch â Thîm Cefn Gwlad y Cngor.

Ffôn: 029 2087 3186 / 73719 / 73249



E-bost: cefnngwlad@caerdydd.gov.uk

Gwefannau: www.caerdydd.gov.uk/cefnngwlad


www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth

www.awyragoredcaerdydd.com

ALLWEDD

-  Llwybr Rhymini
-  Llwybr arfaethedig

Dim Delweddau
Map



Llanrhymini




Trowbridge



Llanedern

Tredelerch



Tremorfa



Hwyaden Gynffonfai

Mae gan hwyaden gynffonfain wryw gynffon du a gwyn gyda dwy bluen ddu hirgul iawn. Mae'r benywod yn frown brith gyda chynffonau byrrach.

Maent yn magu mewn ardaloedd o wlyptir gyda dŵr bas yn agos at laswelltir a chynefin agored. Yn y gaeaf, maent yn fwy tebygol o gael eu gweld o amgylch arfordiroedd cysgodol ac mewn aberoedd fel Aber Afon Hafren. Mae hwyaid cynffonfain yn bwyta amrywiaeth o blanhigion ac infertebratau, gan gynnwys dyfrllys, hesg, gweiriau, chwilod dŵr, larfâu pryfed, malwod, gelod, berdys a malwod môr.



Blaenord

Nesaf

Prif Fap



Tylluan Wen

Mae'r dylluan wen yn aderyn nosol yn gyffredinol, gan hela yn y nos am famaliaid bach, gan gynnwys llygod, llygod y gwair a chwistlod ac adar bach, fel y fronfraith a'r llinos.

Mae ganddi glyw sensitif iawn gan olygu y gall hela hyd yn oed ar y noson dywyllaf heb ddibynnu ar ei golwg. Mae i'w cael mewn cefn gwlad agored, ar dir fferm, ar gorsydd arfordirol ac ar ymylon coedwigoedd, ac maent yn aml yn nythu mewn adeiladau, mewn coed gwag neu ar glogwyni. Gellir adnabod y dylluan wen wrth ei hwyneb siâp calon, rhannau uchaf lliw mêl ac adenydd gyda smotiau llwyd tywyll ar y cefn a lliw gwyn eira oddi tanynt.

Blaenord

Nesaf

Prif Fap

Hwyaden Gopog

Mae'r hwyaden gopog yn llai na hwyaden wyllt, gyda phig glaslwyd a llygaid euraidd. Mae gan y gwrywod blu du a gwyn sgleiniog gyda chrib yn hongian o gefn y gwddf, tra bo'r benywod yn lliw brown siocled gyda rhannau uchaf tywyllach a chrib llai ar gefn y pen.

Maent yn bridio o amgylch llynnoedd mewndirol, cronfeydd ac afonydd sy'n llifo'n araf lle maent yn casglu bwyd trwy blymio i'r gwaelod. Mae hwyaid copog yn bwyta misglod dŵr croyw, perdys, cramenogion, pryfed, a hefyd phlanhigion fel dyfrllys a hesg.



Blaenord

Nesaf

Prif Fap



Tegeirian Gwennynog

Daw enw'r tegeirian gwennynog o'i brif beillydd - y wenyen. Er mwyn denu'r wenyen peillio, mae'r planhigyn wedi esblygu blodau tebyg i wenyen. Mae gan y canol brown blewog batrwm smotiau a llinellau melyn sy'n edrych fel corff wenyen.

Nid yw'r math cywir o wenyen i beillio'r degeirian yn bodoli yn y DU, ac felly yma, mae'n hunan-beillio. Mae'r rhywogaeth hon o degeirian yn blodeuo rhwng mis Mehefin a mis Gorffennaf. Mae'n un o'r mwyaf nodweddiadol yn y DU, a gall gymryd 5-8 mlynedd i flodeuo.

Blaenord

Nesaf

Prif Fap

Gerddi Rumney Hill

Mae'r parc cyhoeddus hwn yn nwyrain Caerdydd yn ddeniadol ac mewn cyflwr da, ac fe'i sefydlwyd ar ddiwedd y 1950au ar dir a ddynodwyd yn wreiddiol fel tir claddu.

Mae'r safle'n cynnwys cyfleusterau hamdden, gardd ffurfiol a choetiroedd sy'n cynnwys Llwybr Fforwyr Bywyd Gwyllt. Mae'r ardal hon yn gartref i amrywiaeth o fywyd gwyllt, gan gynnwys ystlumod, cnocell y coed, titw tomos las, ieir bach yr haf a phryfed.



Blaenord

Nesaf

Prif Fap



Gwely Cyrs

Ceir gwelyau cyrs mewn cynefinoedd sy'n wlyb yn barhaol neu sy'n ddyfrlawn o dro i dro, ac maent yn gyffredin o amgylch llynnoedd a phyllau, mewn corysdd gorlifdir, mewn aberoedd ac ar hyd camlesi ac afonydd iseldir.

Mae gwelyau cyrs yn llawn o frwyn cyffredin (*Phragmites australis*), ac mae llystyfiant arall sy'n aml yn bresennol yn cynnwys melyswellt y gamlas, hesg mawr, gellesgen a llyriad dŵr. Mae gwelyau cyrs yn bwysig i amsugno maetholion i'r dŵr a gellir eu defnyddio i warchod glannau llynnoedd a gwelyau afonydd rhag erydu.

Blaenord

Nesaf

Prif Fap

Pibydd Coesgoch

Mae'r pibydd coesgoch yn aderyn rhydiol cyffredin, a nodir gan ei goesau coch hir, ei hyd canolig a'i big oren goch sydd â blaen du.

Defnyddir hwn i chwilio am fwyd yn y mwd. Gan fwyta infertebratau, mewn amgylcheddau morol, bydd yn bwyta perdys, pysgod bychain, pysgod cregyn a chrancod bach, ond ar y mewndir, bydd yn chwilio am fwydod, chwilod, pryfed a phryfed cop.

Mae'r pibydd coesgoch yn bridio o amgylch morfeydd heli, dolydd llifogydd a llynnoedd, ond yn ystod y gaeaf, fe'i gwelir yn gyffredin ar aberoedd a lagwnau arfordirol. Mae'n adeiladu ei nythod ar y ddaear ymhlith twffiau o borfa lle bydd y fenyw'n dodwy 3-5 wy.



Blaenord

Nesaf

Prif Fap



Alarch Mud

Mae'r alarch mud yn un o adar mwyaf Prydain, gyda gwddf hir gosgeiddig siâp S, cynffon bigfain, traed mawr du a phig oren. Ar waelod y big, mae bwlyn mawr du sy'n fwy gan y gwrywod na'r benywod. Mae'r rhai ifanc yn llwydfrown, gan gael eu plu gwyn yn eu haf cyntaf, ac mae ganddynt big llwyd.

Unwaith y bydd elyrch mud yn dechrau bridio pan fyddant yn 3-4 oed, fel arfer byddant yn paru am oes. Byddant yn bridio ar lynnoedd gydag ardaloedd bas ar gyfer bwydo, afonydd sy'n llifo'n araf, camlesi ac wrth ymyl dŵr hallt. Yn gyffredinol, mae elyrch mud yn bwyta planhigion dyfrol a llystyfiant arall, er y byddant weithiau'n bwyta anifeiliaid bach gan gynnwys pryfed a malwod.

Blaenord

Nesaf

Prif Fap

Dyfrgi

Mae dyfrgwn yn byw ar lannau afonydd, camlesi, nentydd, pyllau a llynnoedd mewn cartrefi a elwir yn 'walau' sydd o dan y ddaear neu mewn llystyfiant trwchus ar lannau'r afon neu welyau cyrs yn gyffredinol. Mae'n well gan ddyfrgwn fwyta a byw mewn ac o amgylch dŵr glân ac mae eu presenoldeb yn arwydd o afon iach a glân. Mae deiet dyfrgwn yn cynnwys pysgod yn bennaf, a chanddynt flys penodol am lyswennod ac eogiaid. Fodd bynnag, gwyddom eu bod wedi bwyta adar, amffibiaid a chramenogion.

Yn y gwanwyn, byddant hefyd yn mwynhau bwyta brogaod a llyffantod. Mae dyfrgwn fel arfer yn anifeiliaid unig, ac eithrio pan fyddant yn magu neu'n gofalu am yr ifanc. Maent yn anifeiliaid nosol, ac maent yn wyliadwrus iawn o bobl. Mae dyfrgwn yn nodi eu tiriogaeth gyda baw sydd ag arogl melys fel te Earl Grey!!!



Blaenord

Nesaf

Prif Fap



Pathew

Gellir adnabod pathewod gan eu ffwr euraidd, eu cynffon flewog a'u llygaid mawr duon. Maent yn anifeiliaid swil, nosol sy'n byw mewn coetiroedd, prysgwydd neu wrychoedd yn bennaf, gan dreulio'r rhan fwyaf o'u hamser mewn canghennau coed yn chwilio am fwyd. Anaml y byddant yn dod i'r llawr. Eu hoff fwyd yw cnau cyll, ond byddant hefyd yn bwyta blodau, cnau eraill a rhai pryfed (yn enwedig pryfed gleision a lindys).

Mae'r pathew yn gaeafgysgu drwy gydol y gaeaf pan fydd bwyd yn brin. Fe'u diogelir gan ddeddfwriaeth Ewropeaidd sy'n ei gwneud yn drosedd i'w haflonyddu, eu dal, eu hanafu neu eu lladd yn fwriadol. Mae hefyd yn drosedd i ddifrodi neu ddinistrio manau bridio neu orffwys y pathew.

Blaenord

Nesaf

Prif Fap

Coeden Fêl

Gelwir y llwyn hwn y 'llwyn pili pala' yn aml, yn enwedig gan arddwyr, am ei fod yn denu pob math o ieir bach yr haf a gwyfynod sy'n chwilio am neithdar. Mae'r blodau, sydd fel arfer yn borffor neu'n wyn, yn blodeuo rhwng mis Mehefin a mis Hydref.

Er nad yw'r goeden fêl yn frodorol i'r DU, mae'n boblogaidd gydag amrywiaeth o bryfed, yn enwedig ieir bach yr haf, gan fod y blodau'n ffynhonnell gyfoethog o neithdar.



Blaenord

Nesaf

Prif Fap



Iâr Fach Amryliw

Yr iâr fach amryliw yw'r glöyn byw mwyaf cyffredin yn y DU. Gellir ei adnabod gan ei adenydd oren a du llachar, gyda rhes o hirgylchoedd glas o amgylch ymylon yr adain. Mae'r gwrywod a'r benywod yn edrych yn debyg iawn. Mae'r ieir bach yr haf hyn yn cael eu denu gan flodau a danadl poethion - un o'u hoff fwydydd, a lle maent yn dodwy eu hwyau.

Mae'r goeden fêl yn ffefryn arbennig i'r glöyn byw hwn, tra bod yn well gan ei lindys fwyta'r danadl lle cânt eu geni. Mae'r iâr fach amryliw yn gaeafgysgu yn ystod misoedd oer y gaeaf mewn modurdai, llofftydd, adeiladau allanol, ystafelloedd oer ac eglwysi.

Blaenord

Nesaf

Prif Fap

Coed Cyll

Mae coed cyll yn gymharol fach, ac fe'u gwelir mewn coetiroedd o dan goed derw a choed ffawydd mwy. Mae blodau gwrywaidd a benywaidd i'w cael ar yr un goeden, gyda'r blodau gwrywaidd yn ffurfio cenau cyll bach y gellir eu gweld yn hongian i lawr o'r goeden rhwng mis Chwefror a mis Ebrill. Yn aml, gelwir y rhain yn 'gynffonnau wyn'.

Mae'r blodau benywaidd yn fach iawn ac wedi'u cuddio yn y blagur, a phan fyddant yn cael eu ffrwythloni, maent yn tyfu i gnau cyll. Mae'r cnau hyn yn ffynhonnell fwyd bwysig i lawer o wahanol adar ac anifeiliaid, gan gynnwys pathewod, gwiwerod, cnoCELL y coed a sgrech y coed.



Blaenord

Nesaf

Prif Fap



Trochwyr

Mae trochwyr yn adar bach tew gyda chynffonau byrion, bron a gwddf gwyn ac adenydd byr. Pan fydd eu llygaid ar gau, mae'r amrannau gwyn yn weladwy. Fe'u ceir fel arfer o amgylch dyfrffyrdd sy'n llifo'n gyflym, ac maent yn nodweddiadol oherwydd eu dowcio. Maent yn chwilio am fwyd trwy gerdded o dan y dŵr gan godi larfae pryfed a pherdys dŵr croyw o waelod afonydd a nentydd.

Blaenord

Nesaf

Prif Fap

Draenen Ddu

Mae'r ddraenen ddu i'w chael yn aml mewn coetiroedd isel, prysgwydd a gwrychoedd. Mae'n goeden pigog gyda choesyn tywyll a blodau gwyn â phum petal sydd yn ymddangos yn gynnar yn y gwanwyn, cyn i ddail y coed ddod allan. Mae hyn yn ei wneud yn wahanol i'r ddraenen wen, sydd â'i dail yn dod allan cyn y blodau.

Mae'r ddraenen ddu yn denu amrywiaeth o fywyd gwyllt, o adar sy'n adeiladu eu nythod ymhlith ei changhennau i famaliaid bach fel draenogod sy'n llochesu o dan ei chanopi trwchus. Yn yr hydref, mae'r goeden hon yn cynhyrchu ffrwythau duon a elwir in eirin surion, sy'n arbennig o ddeniadol i adar ac a ddefnyddir yn aml i wneud jin eirin surion.

Blaenord

Nesaf

Prif Fap



BYWYD GWYLLT

LLWYBR RHYMNI

Bydd y daflen hon yn eich helpu i adnabod rhai o'r planhigion, anifeiliaid ac adar mwyaf cyffredin ar hyd Llwybr Rhymini. Mae sawl lle y gallwch weld yr afon ohono. Cymerwch eiliad i aros, i edrych ac i wrando am fywyd gwylt - cewch eich synnu faint y gallwch ddod o hyd iddo. Cliciwch ar yr 'eiconau' i gael gwybod mwy.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â chyfleoedd eraill i fwynhau'r ardal o gefn gwlad sydd ar garreg eich drws, cysylltwch â Thîm Cefn Gwlad y Cyngor.

Ffôn: 029 2087 3186 / 73719 / 73249



E-bost: cefn gwlad@caerdydd.gov.uk

Gwefannau: www.caerdydd.gov.uk/cefn gwlad

www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth

www.awyragoredcaerdydd.com

ALLWEDD

-  Llwybr Rhymini
-  Llwybr arfaethedig



Prif Fap



Llanedern

Llanrhymini

Trowbridge

Tredelerch

Tremorfa